## Bwletin o Batagonia 8 – Newid Hinsawdd gan Twm Elias

Mae gan bob cwr o'r byd ei bryderon am sut y mae a sut y bydd yr hinsawdd yn newid yn y dyfodol. Bydd gwahanol rannau o'r byd yn teimlo'r newidiadau mewn gwahanol ffyrdd – rhai sydd eisoes yn amlwg ond eraill na allwn ond damcaniaethu amdanynt ar hyn o bryd.

Sut mae newid hinsawdd yn mynd i effeithio ar Wladfa Patagonia? Mae rhai effeithiau i'w gweld yma yn barod, a'r amlycaf yw bod dŵr yn graddol brinhau yn yr Afon Camwy, fel hefyd rhai o'r afonydd eraill sy'n llifo o'r Andes. Y rheswm am hyn yw nad yw'r eira ar y mynyddoedd uchel yn hel i'r un graddau ac arfer. Tuedda'r eira ddisgyn yn hwyrach nag arfer wrth i'r hinsawdd gynhesu a bydd yn dechrau dadmer ynghynt yn y gwanwyr. O ganlyniad, nid yw'r gronfa ddŵr gedwir yn yr eira, ac sy'n cael ei ollwng yn raddol dros yr haf, cymaint ag yr arferai fod. Golyga hyn leihad o dipyn i beth yn y cyflenwad dŵr y mae ffermwyr llawr Dyffryn Camwy mor ddibynnol arno i ddyfrio'u cnydau drwy'r tymor tyfu.

Ar ben hynny wrth i boblogaeth y Dyffryn dyfu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n dal i gynyddu, daeth mwy o alw am ddŵr i bwrpasau domestig a diwydiannol. Rhaid cofio mai cynnydd poblogaeth ar raddfa fyd eang, a'r defnydd anghynaladwy o adnoddau, ynghyd â llygredd carbon, yw un o brif achosion newid hinsawdd. Mae'r cynnydd lleol ym mhoblogaeth Dyffryn Camwy yn sicr o waethygu'r broblem o brinder dŵr yn y tymor hir. Eisoes gofynir i bawb beidio gwastraffu dŵr. Mae dŵr tap yn iawn i wneud te, ymolchi ac i olchi llestri a dillad, ond mae dŵr yfed yn cael ei gyflenwi yn wythnosol mewn tanciau plastig 20 litr o ffynhonnau yn uwch i fyny'r Dyffryn.




*Dŵr yfed yn cael ei gyflenwi yn wythnosol gan gwmni Dŵr Da*